# Glas

Bwletin misol
Llên natur
**Rhif 165**
**Tachwedd 2021**

gan gynnwys Clwb y Llygaid Bach, adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn




Gwalch glas yn hela yn y ardd cefn
Brithdir, mis Medi2021
Llun Martin Jones


Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

CYMUNED Llên natur

RHIF ELUSEN 1126027 Cymdeithas Edward Llwyd

# Storm 28 Medi 2021




September 28, 2021 Gorsaf Maes Gwynedd

| | High | Low | Average |
|---|---|---|---|
| Temperature | 13.6 °C | 7.4 °C | 10.4 °C |
| Dew Point | 11.5 °C | 6.6 °C | 8.7 °C |
| Humidity | 95 | 79 | 89 |
| Precipitation | 18.59 mm-- | | -- |

| | High | Low | Average |
|---|---|---|---|
| Wind Speed | 20.6 km/h | 0.0 km/h | 6.3 km/h |
| Wind Gust | 25.6 km/h | -- | 8.5 km/h |
| Wind Direction-- | | -- | South |
| Pressure | 986.52 hPa | 981.04 hPa-- | |

**Cofnodion Gethin Pritchard**

**Sylwadau os gwelwch yn dda chi feteorolegwyr….!**



Hirael, Bangor, wedi'i oleuo gan fellt, neithiwr **Scott Saunders**

**Dyma sut ddaru Gorsaf Dywydd Maes Gwynedd gofnodi'r storm a ddigwyddodd yn ardal Waunfawr tua 6 o'r gloch**

**(1800 awr?)**

❶ **Tymheredd yn disgyn** o 3yp ymlaen ac yn sylweddol o 8yh ymlaen.
❷ **Gwynt yn codi** am gyfnod byr tua 7yh gyda chawod drom a'r gwynt yn newid cyfeiriad yn gyffredinol o'r de i'r gogledd rhwng 3yp a 7yh.
❸ **Ar ôl disgyn trwy'r bore disgynnodd y pwysedd awyr** i isafbwynt tua 6 o'r gloch, cyn y terfysg pan gafwyd mymryn o haul, mi gododd eto yn sylweddol tan o leiaf hanner nos.

# Adar y Wladfa gan Luis Carrizo: Rhea Bach



Yn ystod ail antur **HMS Beagle** **Charles Darwin**, gwnaeth y naturiaethwr ifanc Charles Darwin lawer o deithiau ar y tir, a thua mis Awst 1833 clywodd gan y **gauchos** yn ardal Río Negro yng Ngogledd Patagonia am fodolaeth rhea bychan, "aderyn prin iawn a alwent yn Avestruz Petise". Aeth Darwin ati i chwilio am yr aderyn hwn, ond yn ofer. Hwyliodd y Beagle ymlaen tua'r De, gan lanio yn Port Desire yn ne Patagonia ar 23 Rhagfyr. Ar y diwrnod canlynol, saethodd Darwin gwanaco, gan roi pryd Nadolig iddynt. Ond yn nyddiau cyntaf mis Ionawr, saethodd un o'i gyd-deithwyr, yr artist Conrad Martens, math o rhea. Yr oeddent wrthi yn ei fwyta cyn i Darwin sylweddoli mai dyma'r rhea bach y bu'n chwilio mor ddyfal amdano! Llwyddodd i achub y pen, y gwddf, y coesau, un adain, a llawer o'r plu brasaf! Ond roedd hi'n agos…!!
Enw Luis amdano yw ***choique*** *Pterocnemia pennata*.
Tynnodd ei lun yn Nhrevelin, Patagonia, Yr Ariannin.
"*Choique* yw ei enw yn iaith y **Mapuche** (*Mapudungun*)" meddai Luis. Gan mai'r Tehuelche oedd y llwyth brodorol a welodd y Cymry gyntaf yno, diddorol fyddai gwybod beth oedd eu henw hwy ar yr aderyn hefyd.
Cewch dipyn rhagor o wybodaeth am y rhea yn y Wici-Cymraeg yma **Rhea bach**.
**Dolenni piws Wicipedia** (wikipedia.org)

# Hen gloc



Prynodd Osian Hughes hen gloc o'r flwyddyn 1820, ond mae'n methu'n glir a ffeindio allan pa dderyn sydd ar wyneb y cloc? Cynigiodd yr adarydd Dewi Lewis y gallai fod yn **Chwarddwr Torchog Mawr** (*Greater Necklaced Laughing Thrush*). Mae mwy o'i hanes yn Wicipedia. Oes gan rywun arall hen glociau ac adar egsotig arnynt?







**Mi fydd hanes un arall yn rhifyn Glas 166.**

# Gwymon o’r Gogledd – cynhaeaf am ddim



Gwymon, Pontllyfni 6 Hydref 2021 Gwenan Williams







**A chymryd bod y gwymon yn hel ar y traethau ar wyntoedd at y tir *(onshore winds)*, roedd y gwymon yma wedi cyrraedd efo gwynt gogledd-orllewin 5 Hydref (saeth coch isod)?**

Dyma’r graff (o hanner nos i hanner nos y diwrnod hwnnw) o orsaf dywydd Gethin Pritchard ym Maes Gwynedd, Waunfawr tua 6 milltir i ffwrdd fel yr hed y fran. Fe giliodd y gwynt yn ôl i’r de o 0900 ar 6 Hydref.

Ysgogodd hyn nifer o sylwadau lliwgar am ddefnyddio gwymon fel gwrtaith mewn gerddi a chaeau.

**Dyma rai:**

## Mwnci Plas Brynaerau

Roedd ffermwyr Pontllyfni yn arfer mynd lawr i'r traeth i gasglu gwymon a'i wasgaru ar y tir. A oes rhywun yn cofio’r stori "Mwnci Plas Brynaerau"? Stori am was o Blas Brynaerau yn mynd i hel gwymon i'w wasgaru ar y tir yn dod ar draws mwnci ar lan y môr a mynd ag ef adref lle y cafodd ei gadw fel anifail anwes am flynyddoedd. **Dorothy Jones**

Dwi ‘n cofio yn fy mhentyndod gweld mwnci yn y bynglo ar y chwith wrth fynd i mewn i Aberdesach, rhyfeddu a dotio arno! **Gwenan Williams**

## Hen arferion

Fy ngŵr yn cofio ei ewythr yn dweud ei fod wedi cario gwymon o'r traeth unwaith ar ôl i drochfa ohono lanio ar y traeth flynyddoedd maith yn nôl. Digon tebyg i'r llun uchod dybiwn i !! **Sian Evans**


Gwymon yn beth da iawn i’r tir, cwrtaidd "slow release",wedi cario tunelli ohono mewn bagia blynyddoedd yn ôl i "amaethwyr Eifionydd", mi fydda loris yn ei gario fo o Cornwall, *"Cornish calcified seaweed"* oedd enw y cwrtaidd - ffermwyr y mynyddoedd yn defnyddio tunelli ohono **Kevin Williams**

Cofio gwrteth *"Calseamin"* yn y 60au. **Ian Jones**

Twmpath o wymon ar Ynys Enlli (gwaelod) ar gyfer ei ddefnyddio fel gwrtaith 5 Hydref 2019 **Dewi Lewis**

Gadael i'r halen olchi ohono yn bwysig i'w gadw rhag cael sgîl-effeithiau niweidiol (e.e. ar strwythyr y pridd) **Gwyn Jones**

Byddai Mam yn mynd i nôl gwymon at lan y Fenai ar ôl ymddeol i Frynsiencyn a'i daenu ar yr ardd. Gwyddai am y daioni ynddo er pan oedd hi'n hogan yn Abersoch. Doedd dim i'w gael ym Maldwyn! **Rhian Williams**



Twmpath o wymon ar Ynys Enlli ar gyfer ei ddefnyddio fel gwrtaith. 5 Hydref 2019 **Dewi Lewis**

## Cymru: 1924, 1999, 2021




BOLED PENLAS *Gyroporus cyanescens*




**Mae 12 diwrnod yn gwahanu'r ddau lun hyn. Roedd mynd am dro gyda'r teulu yn mynd i arwain at ddarganfyddiad eithriadol o brin.** Ar ein ffordd i Llyn Elsi yng nghyffiniau Betws-y-Coedd daeth fy merch Gwenno o hyd i fadarchen fach welw, dinod, ac yn mynd ati i fy holi: sylweddolais yn fuan bod mannau yn troi yn las yn syth ar ôl cwffwrdd y fadarchen. ❶ A dyna fo, nes fy mod i wedi cyrraedd adre a dechrau chwilio am fwy o fanylion ac enw, a sylweddoli nad oedd amheuaeth mai ***Gyroporus cyanescens*** oedd hi, **boled penlas**. Ond y ffaith mwyaf arbennig yw'r nifer fechan o recordiadau: 2 ar gyfer Cymru, 53 yn unig ar gyfer Prydain. Mi wnes i recordio fy narganfyddiad ond roedd arbenigwyr **NBN** angen trafod pethau ymhellach. Es i yn ôl 12 diwrnod wedyn i'r un lle. Roedd 'na ddau foled penlas arall yna. Cymerais un ohonynt y tro 'ma, ei sleisio a gweld cnawd y boled yn troi yn arlliw glas ❷ mwyaf rhyfedd. Roedd arbenigwyr ar gael y tro 'ma. Mae'r broses o dderbyn y record ar y gweill, diolch i **Cofnod**:

*Yes, that's a very nice record and I think the specimens are in better condition than the one I found in 1999. It's certainly quite a rare species in N. Wales. Seems to be a good season in [the ...] area. Must try to get there!*

**Charles Aron**

*A very nice record of the **Cornflower Bolete**, **Gyroporus cyanescens** including good photos for verification – was the sample kept and dried? This is a rare fungus locally, (and in GB&I) and as far as I know there are only a couple of existing records, one from the Fairy Glen, 1924, and one from Capel Curig 1999. It will be interesting to know if the current site is near to the latter record by comparing the grid references.*

**Debbie Evans**

Cyn dilyn cyngor D.E. ges i gyfle i arwain ychydig o "bobl lwcus" **Cymdeithas Edward Llwyd** i leoliad arbennig y **boledau penlas** a dychwelyd y fadarchen oedd gen i i'w gynefin. Tamaid o'r penlas olaf, sydd wrthi'n sychu ar y foment, a bydd hwn yn dystiolaeth digamsyniol, proses araf o gofio pa mor gyffrous oedd dod o hyd i rhywbeth mor brin. Mi wnes i ddod o hyd i fadarchen prin arall, ***Cyanoboletus pulverulentus***. Dwi'n gwybod beth i wneud rwan!

**Dominig Kervegant**

## Chwilen ddŵr – ond pa un?




Chwilen yma ar wal y tŷ (Trefnant) fore Sul, Hydref 10ed. Tua 1cm o faint.

**Alun Williams**

*Dytiscus marginalis* faswn i wedi dweud fel arall, ond mae'r rhy fach i hwnnw. Dyma farn arbenigol yr entemolegydd John Bratton:

*That is Colymbetes fuscus [UK Beetles]. If you zoom in, you can see the microreticulations run across the elytra rather than along them, I think unique to C. fuscus in the British water beetles*

Y '*microreticulations*' ydi'r 'asennau' bach mân mân sy'n rhedeg AR DRAWS yr elytra - nid y rhes o dyllau sy'n rhedeg AR HYD yr elytron (chwyddlun).

## Arthur Vaughan Jones (parhad)

### "*Only the experts know*"



Newydd weld hwn yn y Glas164 (llennatur.cymru) [tudalen 3]. Sut fethais o ar Facebook?! 'Mol' oeddem ni'n ei alw yn y chwedegau. Cymeriad unigryw. Roedd weithiau un ynganu'r '**r**' yn wahanol i'r arfer. Cofiaf iddo son unwaith am bryfed, bod miloedd o rywogaethau ohonynt, ac nad oedd y rhan fwyaf yn medru eu hadnabod. "*Only the experts know*", meddai. Yna seibiant, ac yna edrych o gwmpas y dosbarth, hefo'r wên arbennig honno oedd ganddo. "*I know*", meddai.



Ei wraig sy'n sefyll rhwng y ddwy ddynes i'w dde yn y llun Glas 164 dwi'n meddwl. Roedd yn un o'r rhai oedd yn rhedeg y '*Pwllheli Nature Club*'. Rwy'n ei gofio yn Nyffryn Ogwen yn chwilio am lili'r wyddfa. Gofynwyd i mi siarad am wyfynod unwaith mewn cyfarfod o'r clwb, ac ymhellach ymlaen yn y noson bu dadl gref rhyngddo a Dr Margaret, meddyg teulu lleol, am ryw aderyn neu'i gilydd!

**Dafydd Lewis**

**arbennig**

[H. Wydd. *airchinnech*: < **are-k$^{u}$enn-īko-*, cf. *ar-*, *pen*[1], *-ig*[2]]

**arbenigwr, arbenigydd**

[bôn y f. *arbenigaf*: *arbenigo+-wr*, *-ydd*[3]]

*eg.* (b. *arbenigwraig* ll. *arbenigwragedd*) ll. *arbenigwyr*.


Un sy'n arbenigo mewn pwnc neu faes penodol, un sy'n fedrus iawn neu'n awdurdod mewn pwnc neu faes penodol; meddyg arbenigol, ymgynghorydd (mewn ysbyty):

# 2021, Yr Hydref


Bu Hydref eleni yn ysbrydoliaeth i lawer ohonoch. Dyma ddetholiad o'r amryfal luniau a dynsoch chi y mis hwn. Mae nhw wir yn adlewyrchu'r cyfoeth natur Cymru a'i gysylltiadau â phobl a'u hanes.



Idris Jones
24 Medi 2021




Gillianm Brown
9 Hydref 2021
Waunfawr, 7.26yb
tua'r dwyrain



Alun Williams
Gwyddau droedbinc
Ardal Burton Park
9 Hydref 2021



Suzie Caton
Gwrthdroad cwmwl
Yn y bore
Llan Ffestiniog



Martin Jones
Aderyn to ifanc
Brithdir, mis Medi 2021



Carys Angharad
10 Hydref 2021
Brwyn lliwgar
Llŷn Iwerddon
Blaenau Ffestiniog



Scott Saunders
Cap cwyr y parot
Bangor

CYMUNED Llén natur



Dafydd Whiteside Thomas
9 Hydref 2021



Dinorwic
Llion Griffiths



Bethan Vaughan Davies
Chwilen ddu, Nefyn
9 Hydref 2021



Ffion Meleri Gwyn
Madarch parasol
Traeth Penychain

# Lloer-syllu o Gilgwri



**Un o fy atgofion o'r adarydd Peter Hope Jones yw ei glywed yn son am *moon watching*, sef syllu yn amyneddgar trwy sbienddrych yn y tymhorau mudo i adnabod y gwahanol adar fyddai'n pasio heibio'r lleuad llawn.**

Chefais erioed fy argyhoeddi bod y fath beth yn bosibl, mor ddisymwth fyddai eu hymddangosiad yn fy nhyb i ar y pryd, a'r un mor sydyn fyddai'r adar yn diflannu i'r tywyllwch drachefn. Tila iawn o'r herwydd oedd fy ymdrechion i loer-syllu o ddifri. Ond dyma lun Alun Williams a dynnodd yn ardal Burton a Park Gate, Cilgwri, i fy argyhoeddi o'r diwedd nad peth amhosib ydi lloer-syllu ('ta ydi hi'n llawer haws gyda chamera da a photograffydd gwell y tu ôl iddo?). Dyma fintai o ddwsin o wyddau yn mynd ar eu hynt. Onid gwerth mwyaf y llun (y tu hwnt i'w werth artistig) yw gwybod bod gwyddau yn mordwyo liw nos?

Ni chlywaf fawr o son heddiw gan adarwyr am 'loer-syllu'. Beth am fentro ar y noson glir, lleuad llawn nesaf? Wnawn ni gyhoeddi unrhyw luniau neu adroddiadau o'ch profiadau. A does dim disgwyl i chi gyrraedd safon llun Alun (ond go dda os gwnewch chi!!)

## Pwt ychwanegol am leuad y tymor hwn:

Dyma wefan fach dda F*ull Moon Calendar 2021: When Is The Next Full Moon? - Dates & Times (farmersalmanac.com)* i ddweud pryd fydd y lleuad llawn nesaf. Tua'r 25 Medi mae cyfnod y NAW NOS OLAU (Bwletin **Llên Natur 128**, tudalen 6). I'r dyddiadurwr DO Jones, Padog, o gwmpas 20 Hydref roedd cyfnod y naw nos olau yn y flwyddyn 1953:

> "20 Hydref 1953: Cael y gwair heddiw, cario 4 llwyth o dâs wair cae sofl a llwyth o dâs wair rhos isa. Cwlasu yn yr helm wair. Braf, naw nos olau, haf bach Mihangel."

# "Pan fu i'r môr rewi yn Ionawr 1795"

**Dyma stori gafodd Twm Elias o *History Hit***

***How Did a Cavalry Charge Once Succeed Against Ships?***

*On 23 January 1795 an almost unprecedented event in military history occurred when a regiment of French Hussar cavalry was able to storm and capture a Dutch fleet at anchor during the Revolutionary Wars'.* (Llun ar frig y golofn nesaf)

Mae blas rhyfeddol ar fywyd pob dydd y mis Ionawr oer hwn i'w gael (yn nhrefn amser) yma. Mis Ionawr 1795 oedd yr Ionawr oeraf yng nghyfres Tymheredd Canolbarth Lloegr (*CET series*) Cylchgrawn *Weather 49-6*



**Adroddiadau o Norfolk ac ardal y Gaerdydd fodern yw'r ffynonellau pennaf.**

**5 Ionawr Weston Longville Norfolk:** *in the afternoon the weather seemed likely to alter rather milder if anything than it was. The horizon in the west on the going down of the sun was remarkably red.... that sleepines I cannot account for, unless from cold* **Dyddiadur James Woodford**

**10 Ionawr, Llanfihangel ar Elai** (Caerdydd, Michaelston-super-Ely - Wikipedia) *The Severest Term of Weather for several years past, and my face swelled in a pityfull condition.*

Dyddiadur William Thomas, Michaelston-super-Ely 1762-1795 (yn Denning 1995)

**Gyda diolch i Cerys Jones, Myfyrwraig ôl-radd, Prifysgol Aberystwyth**

**Dyma 'ddioddefaint' bonheddwr yn 1795, sef methu stumogi ysgyfarnog a biff wedi ei ferwi oherwydd y gymalwst (y gowt)! Beth fuasai dioddefaint y werin dlawd tybed?**

**15 Ionawr, Weston Longville:** *Got up this morning very bad indeed in the Gout in my right foot, could scarce bare [sic] to put him on the ground, and so it continued the whole Day and night, not free one minute from violent pain. The Weather Most piercing, severe frost, with the Wind & some Snow, the Wind from the East and very rough. We had some boiled Beef & a Hare rosted [sic] for dinner. I could eat but very little indeed for dinner today. I have my bed warmed tonight & a fire in my bed-Room. I never was attacked so severe before in my life. Obliged to put on my great Shoe, lined with flannel. The Weather very much against me besides.*

**Dyddiadur James Woodford**

**Er dyfned yr oerni nid oedd y mis yn arbennig o eiraog:**

**16-17 Ionawr:** *heavy snowfall in north Wales... Dry year, volcanic dust veil, Aleutian eruptians. *Very cold winter* Kington, J. (2010) ***Climate and Weather - New Naturalist (Harper Collins)***

**17 Ionawr:** *...and from the standpoint of the modern meteorologist the entry for 17 Jan. 1795 is unusually illuminating* [Huw Jones] - *`Ecton, Northampton: early snow, the ground cover`d - wind quite subsided - at night kind of rain but very cold - the wind blew by short storms.`* ***Weather Book Constantia Orlebar, Northampton***

**20 Ionawr - Weston Longville:** *last night was the severest we have had yet. It froze so sharp within doors that the milk in the milk pans in the dairy was froze in a mass? I think that this day has been the coldest that I have ever felt in my life, so cold within doors.....*

**21 Ionawr:** *the last night the most severest yet, extreme cold. So cold that that the poultry kept in the cart shed and obliged to be driven out to be fed.......*

**23 Ionawr:** *the weather was more severe than ever, it froze apples within doors tho covered with a thick carpet. The cold today was the severest I ever felt. The temperature in the....* [Parhad t. 7]

*study with a fire went down to number 46* [pa raddfa oedd hwn?]. *As a present an uncommon bird shot by mr Emeris not good to eat, called by what we could find out a pippet-grebe* [?] *remarkable for the beautiful feathers on the breast, like the finest white satin, with uncommon feet, about the size of a duck, only much longer neck with a long sharp pointed bill, something of the moor-hen species, a smutty back.* **Dyddiadur James Woodford**

**23 Ionawr, Afon Hafren:** *The cold was most intense in January, the coldest January in the CET (-3.1C) on the 23rd the Severn was frozen and a printing press after the fashion on the Thames was set up on the ice* **Yn Kington, Cylchgrawn Weather - Rhag 1994**

**5 Ionawr, Weston Longville:** *the frost this morning more severe than yesterday. It froze last night the chamber pots above stairs. Thermometer in the study down to no 40 this morn. Barometer up high no 29 = 16 & very fair. The cold so severe that it effects* [sic] *me very much? the ice in the pond in the yard which is broke every morning for the horses froze two inches in thickness last night, when broke this morning* **Dyddiadur James Woodford**

**25 Ionawr, Ecton, Northampton:** *Readings of the thermometer are very rarely mentioned, but several appear in the severe January of 1795, the hour not being stated. The lowest was 9 [F = 12.8 C] on the 25th (`really pleasant though very cold sitting at church`).* **Dyddiadur ("Weather Book") Constantia Orlebar, Northampton**

**Er yn llai oer mi barhaodd yr heth i Chwefror 1795i a hyd yn oed Mawrth gan achosi llifogydd mawr gyda'r meiriol.**


**e.e. Chwefror 1795: Llên Natur/Gwefan Natur i Bobl Cymru/Y Tywyddiadur/(llennatur.cymru)**




**Mae'r Tywyddiadur yn rhyngweithiol - hynny yw, mi allwch rhoi gwybodaeth i fewn iddo, neu chael gwybodaeth allan. Y cam cyntaf y byddwch yn cymryd wrth fentro ar y dudalen hon felly fydd dewis pa un rydych am ei wneud.... Chwilio ynteu Mewnbynnu...**

## Gwisg sedêt y teithwyr







**Dyma dri llun o'r ganrif ddiwethaf, a chynt, sy'n dangos sut i wisgo'n sedêt wrth fwynhau'r mynyddoedd! Mae'n debyg bod pethau wedi gwella erbyn hyn efo dillad mwy addas – ond nid cymaint a hynny?**

Llun 1 "Y Wyddfa, siwrna i'r copa". Tystiolaeth o ba mor sedêt oedd teithwyr Oes Fictoria - y merched â'u timpanau (*bustles*) ac yn marchogaeth â chyfrwy-untu (*sidesaddle*). **Un o gardiau post o gasgliad Eirlys Ruhi Edwards-Behi**

Llun 2 (*Historic Photographs: Lucy Smith and Pauline Ranken of the Ladies' Scottish Climbing Club, climbing the Salisbury Crags cliff in Edinburgh. Scotland, 1908.*) **Diolch i Guto Rhys**

Llun 3 Hanner canrif a mwy yn ddiweddarach (1950au cynnar?) roedd y dillad, a'r sgidiau, yr un mor anaddas! Ac yn amlwg, hyd yn oed yr adeg honno, roedd yna ddigon o ymwelwyr â chopa'r Wyddfa i ddenu gwylanod penwaig. **Llun arall o gasgliad Eirlys**

# Enwi pryfed hofrol o Gymru

Casgliad Cymuned Llên Natur

1 Episyrphus balteatus



Pryf Marmalêd

2 Rhingia campestris



Pryf Heineken

3 Helophilus pendulus



Pryf Pêl-droediwr

4 Leucozona glaucia



5 Cheilosia pagana



6 Eupeodes corollae



7 Volucella bombylans



8 Myatropa florea



9 Eristalis tenax



10 Scaeva pyrastri



11 Syrphus sp.



12 Leucozona lucorum



13 Xylota sylvarum



14 Sericomyla silentis



15 Meliscaeva auricollis



16 Xanthogramma pedisequum



## ENWI'R PRYFED HOFROL

**Perlau bach di-enw bu pryfed hofrol erioed - ond rydych yn gyflym codi eu proffil trwy Cymuned Llên Natur. Mae tri math wedi cael ei 'fedyddio' yn barod. Beth am i chi gynnig enwau ar rai o'r gweddill. Wrth ddewis enw, ystyriwch ystyr ei enw gwyddonol - yn enwedig yr ail enw. Ystyriwch hefyd patrwm a maint ei gorff. A chan ymchwilio, trwy Gwgl a Wicipedia efallai, cymerwch ei gynefin, ei ymddygiad a'i hanes i ystyriaeth.**

Anfonwch eich cynigion at **llennatur@yahoo.co.uk**.

17 Syrphus ribesii



18 Epistrophe glossulariae

